| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **23 HYDREF 2013** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO – BRYN TEG HOLIDAY HOME PARK, LLANRUG.** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO** |

## CAIS

Atodir cais i amrywio trwydded eiddo Bryn Teg Holiday Home Park, Llanrug LL55 4RE gan Bryn Teg Holiday Home Park LLP. ouse Limited.
Cyflwynir y cais ar ran yr ymgeisydd gan gwmni Cyfriethwyr Gamlins. Noder mai pwrpas y cais yw cyfuno 3 trwydded sydd yn gyfredol ar yr eiddo fel un trwydded eiddo.
Gweler fanylion oriau trwyddedig y dair drwydded gyfredol ymghlwm a'r adroddiad hwn.

Gofynnir am oriau gweithgareddau trwyddedig ac agor 7 diwrnod yr wythnos fel a ganlyn –

| | **TRWYDDED ARFAETHEDIG** |
|---|---|
| Dyddiau | |
| **Cerddoriaeth fyw** | 09:00 – 24:00 |
| **Cerddoriaeth wedi ei recordio** | 09:00 – 24:00 |
| **Cyflenwi alcohol** | 09:00 - 02:00 |
| **Darparu lluniaeth hwyr y nos** | 09:00 – 24:00 |
| **Oriau agor a chau** | 00:00 – 24:00 |

## YMGYNGHORIADAU

Ymgynghorwyd ar y cais a derbyniwyd ymatebion fel a ganlyn –

| **YMATEBION** | **SYLWADAU** |
|---|---|
| Trigolion Cyfagos | 4 llythyr, 1 ebost , gwrthwynebu |
| Heddlu Gogledd Cymru | E bost - dim gwrthwynebiad |
| Gwasanaeth Tan ac Achub | Llythyr - dim gwrthwynebiad, amodau niferoedd |

## CRYNODEB O'R SYLWADAU A DDERBYNIWYD

### Trigolion cyfagos

Derbyniwyd 4 llythyr ac un e bost gan drigolion cyfagos, yn gwrthwynebu'r cais, yn nodi tystiolaeth o danseilio yr amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus.

Gweler manylion llawn yr ymatebion ynghlwm a'r adroddiad.

## ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol a gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.